## ADOLYGIAD O DREFNIADAU CYMUNEDOL

## CYLCH GORCHWYL


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | 2 |
| 2.0 | Gwybodaeth Gefndir | 2 |
| 3.0 | Nod yr Adolygiad | 4 |
| 4.0 | Beth fydd yn cael ei ystyried fel rhan o’r Adolygiad? | 4 |
| 5.0 | Pwy fydd yn cynnal yr Adolygiad? | 5 |
| 6.0 | Y Broses Adolygu | 5 |
| 7.0 | Cymryd Rhan yn yr Adolygiad | 6 |
| 8.0 | Enwau Cymunedau a Wardiau Cymunedol | 7 |
| 9.0 | Amserlen a ragwelir ar gyfer yr Adolygiad | 7 |
| 10.0 | Gwybodaeth Ategol | 7 |

## 1.0 Cyflwyniad

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 sy'n llywodraethu adolygiadau cymunedol. O dan y Ddeddf hon, mae gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) ddyletswydd gyffredinol i fonitro'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol ledled Cymru. Mae pob prif gyngor yn gyfrifol am fonitro'r cymunedau o fewn ei ardal a, phan fo angen, adolygu eu trefniadau etholiadol i benderfynu a oes angen newidiadau.

Caiff y newidiadau hyn eu gweithredu trwy adolygiadau ffiniau cymunedol ac adolygiadau etholiadol cymunedol. Caiff adolygiad ffiniau cymunedol a gynhelir gan y prif gyngor o dan Adran 25 o'r Ddeddf ei ddeddfu gan Orchymyn gan y Comisiwn. I'r gwrthwyneb, caiff adolygiad etholiadol cymunedol a gynhelir o dan Adran 31 o'r Ddeddf ei ddeddfu gan Orchymyn gan y prif gyngor.

Mae gan brif gynghorau ddyletswydd o dan delerau'r Ddeddf i gyhoeddi adroddiad a chyflwyno'r adroddiad i'r Comisiwn ar eu trefniadau cymunedol bob deng mlynedd. Cyhoeddwyd adolygiad diwethaf Sir y Fflint yn 2014 a'i weithredu yn etholiadau lleol 2017.

Mae'r broses statudol ar gyfer cynnal unrhyw adolygiad cymunedau yn gyson ar draws y ddau fath o adolygiad ar y cyfan. Mae'r prif wahaniaethau i'w gweld yng nghanlyniad yr adolygiad a'i weithrediad. Er bod y Cyngor wedi'i awdurdodi i gyhoeddi gorchmynion i roi newidiadau i drefniadau etholiadol o fewn cymunedau ar waith, rhaid argymell unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned i'r Comisiwn, sy'n gwasanaethu fel awdurdod gweithredu.

Gan nad oes yna etholiadau lleol wedi'u trefnu tan fis Mai 2027, mae hwn yn gyfle da i gynnal adolygiadau, gyda'r nod o gyflwyno unrhyw newidiadau mewn amser ar gyfer yr etholiadau hynny.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg a gwybodaeth ategol am yr adolygiad Cymunedau.

## 2.0 Gwybodaeth Gefndir

### Beth yw Cymuned?

Er dibenion yr adolygiad hwn, 'cymuned' yw uned lywodraeth leol sy'n dod o dan lefel cyngor sir neu fwrdeistref sirol (y 'prif Gyngor'). Mae ardaloedd cymunedol ar hyd a lled Cymru gyfan. Mae ardal Sir y Fflint wedi'i rhannu'n 34 cymuned, gyda Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref etholedig yn gwasanaethu pob un. Yn y cyd-destun hwn, mae statws cyfreithiol y Cynghorau'r un fath waeth beth fo'u henw, h.y. maent i gyd yn cael eu hystyried yn 'Gynghorau Cymuned'. Gellir rhannu cymunedau yn eu tro yn wardiau er dibenion etholiadol, ond nid yw hyn yn anorfod, ac nid yw pob un o gymunedau Sir y Fflint wedi'u rhannu'n wardiau.

### Beth yw Rôl y Cyngor?

Fel prif Gyngor, mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i fonitro'r cymunedau yn y sir, yn ogystal â threfniadau etholiadol y cymunedau hynny. Rhaid iddo hefyd gynnal 'adolygiadau cymunedau' pan fo'r Ddeddf yn gofyn amdanynt, neu pan mae'n ystyried ei bod yn briodol eu cynnal. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i'r Cyngor barhau i geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

**Beth yw Adolygiad Cymunedol?**

Mae dau fath gwahanol o adolygiad cymunedol y gall prif gynghorau eu cynnal, sy'n ddarostyngedig i wahanol adrannau o'r Ddeddf

a) **Adolygiad o ffiniau cymuned (dan Adran 25 y Ddeddf)**
Dylai adolygiad o ffiniau cymuned sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Er enghraifft, gallai cymunedau ehangu dros amser gyda datblygiadau tai newydd. Gall hyn arwain at ffiniau anghyson, er enghraifft pan gaiff tai newydd eu codi ar draws ffiniau gan arwain at ddryswch o ran pa gymuned y mae stad dai yn perthyn iddi. Mae adolygiad cymunedau'n cynnig cyfle i'r prif Gyngor sefydlu ffiniau cadarn wedi'u diffinio'n glir sydd ynghlwm â nodweddion tir, a chael gwared ag unrhyw ffiniau anghyson sy'n bodoli. Gallai newidiadau i ffiniau cymuned olygu addasu ffin cymuned bresennol, diddymu cymuned bresennol, neu greu cymuned newydd. Cyflwynir argymhellion y Cyngor i'r Comisiwn, sy'n cyhoeddi'r gorchymyn i roi'r newidiadau ar waith.

b) **Adolygiad o'r trefniadau etholiadol (dan Adran 31 y Ddeddf)**
Mae'r broses hon yn golygu archwilio trefniadau etholiadol cymuned benodol, sy'n cynnwys gwerthuso'r wardiau a nifer y Cynghorwyr. Yn ystod adolygiad o'r math hwn, gall y Cyngor ystyried yr agweddau canlynol:

- Nifer aelodau'r Cyngor sy'n cynrychioli'r gymuned.
- Rhaniad y gymuned yn wardiau (os yw'n berthnasol) er mwyn ethol Cynghorwyr.
- Nifer a ffiniau unrhyw wardiau.
- Nifer y Cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob ward.
- Enw pob ward.

Er mwyn cynnal y math hwn o adolygiad, mae angen i'r Cyngor ystyried rhai egwyddorion arweiniol o ran maint Cynghorau Cymuned.

Awgryma arferion da na ddylid cael llai na 7 na mwy na 25 o Gynghorwyr ar unrhyw Gyngor Tref neu Gyngor Cymuned. Yn Sir y Fflint, nid oes unrhyw ardal Cyngor Tref neu Gymuned â rhagamcan o etholwyr dros 13,300 o etholwyr. Y dyraniad uchaf a awgrymir yw dim mwy nag 20. I ryw raddau, dylid ystyried pob ardal yn ôl ei rhinweddau ei hun, gan roi ystyriaeth i'w phoblogaeth, ei daearyddiaeth a phatrwm ei chymunedau. Wedi dweud hynny, mae nifer o Gynghorau Tref a Chymuned wedi cael trafferth denu digon o bobl i ymgeisio mewn etholiadau yn hanesyddol. Mae hyn wedi arwain at etholiadau un ymgeisydd ac/neu at fod angen cyfethol aelodau i lenwi seddi gweigion.

Mae'r tabl isod yn dangos y gymhareb o Gynghorwyr i etholwyr ar gyfer maint y Cyngor Tref/Cymuned i'w ddefnyddio fel canllaw hyblyg:

| **Etholwyr** | **Dyraniad Cynghorwyr a Awgrymir** | **Etholwyr** | **Dyraniad Cynghorwyr a Awgrymir** |
|---|---|---|---|
| 0 -299 | 7 | 2000 – 3999 | 13 |
| 300 – 499 | 8 | 4000 – 5999 | 14 |
| 500 – 749 | 9 | 6000 – 8999 | 15 |
| 750 – 999 | 10 | 9000 – 11,999 | 16 |
| 1000 – 1499 | 11 | 12,000 + | 17 - 20 |
| 1500 – 1999 | 12 | | Ffigur 1 |

Mae gan y prif Gyngor ei hun hawl i weithredu’r newidiadau bwriadedig a ddisgrifir yn ei adroddiad terfynol mewn adolygiad o drefniadau etholiadau Adran 31.

**3.0 Nod yr Adolygiad**

Y nod yw cynnal adolygiad cymunedol fel rhan o ddyletswydd statudol Cyngor Sir y Fflint a bydd yn cael ei arwain gan Adrannau 25 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Dylai nod adolygiad o ffiniau cymuned sicrhau dan Adran 25 bod cymunedau’n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Os argymhellir newidiadau i ffiniau cymunedol yn dilyn yr adolygiad o dan Adran 25, yna gellir awgrymu addasiadau ychwanegol sy'n deillio o'r newidiadau ffiniau hyn fel rhan o Adran 31. Mae'r addasiadau ychwanegol hyn yn cynnwys:

- **Newidiadau i gyngor cymuned:** Gallai hyn olygu diddymu cyngor cymuned presennol, creu un newydd, neu ychwanegu neu ddileu cymunedau o gyngor cymuned a rennir.
- **Newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol:** Mae hyn yn ymwneud ag addasiadau yn nhrefn etholiadol y cymunedau sy'n cael eu hadolygu neu'r brif ardal. Ar gyfer cymuned, mae hyn yn golygu newidiadau yn nifer aelodau'r cyngor cymuned ac unrhyw adrannau ward ar gyfer etholiadau. Ar gyfer y brif ardal, mae'n cynnwys addasiadau tebyg ar lefel y prif gyngor.

Nod yr adolygiad yw sicrhau bod ffiniau cymunedol yn cynrychioli hunaniaethau a buddiannau'r cymunedau o fewn awdurdodaeth y Cyngor yn gywir. Yn ogystal, mae'n blaenoriaethu gwneud y ffiniau hyn mor ffafriol â phosibl i lywodraeth leol effeithlon a chyfleus.

Mae newidiadau i ffiniau cymunedau yn aml yn arwain at symudiadau ym mhoblogaethau'r ardaloedd yr effeithir arnynt. Er enghraifft, os yw datblygiad tai newydd yn arwain at ymgorffori ardal mewn cymuned newydd oherwydd ei lleoliad neu ei chysylltiadau ffyrdd, bydd yr ardal honno'n cael ei thynnu o'i chymuned flaenorol. O ganlyniad, gall y cymunedau estynedig a'r cymunedau llai brofi newidiadau i'w cyngor cymuned a/neu drefniadau etholiadol, yn enwedig os yw'r newid i'r ffin yn newid nifer yr etholwyr llywodraeth leol ym mhob cymuned.

Nid oes bwriad i gynnal adolygiad cyffredinol o ffiniau pob cymuned ond yn hytrach i adolygu ffiniau cymunedau penodol lle amlygir rheswm posib dros newid. Fel rhan o ddyletswydd y Cyngor i fonitro ei gymunedau, gofynnom i Gynghorau Cymuned yn 2023 ac ym mis Mai 2025 os oedd unrhyw faterion yr hoffent eu dwyn i’n sylw mewn perthynas â’r ffiniau presennol. Roedd rhai anawsterau y tynnwyd ein sylw atynt ar y pryd, ond fel rhan o ymgynghoriad cychwynnol byddwn yn ystyried yr ardaloedd a godwyd.

**4.0 Beth fydd yn cael ei ystyried o dan yr Adolygiad?**

Bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid argymell newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol eraill, fel y disgrifir uchod.

Bydd yr adolygiad yn sicrhau mai'r ffordd orau o gyflawni llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yw trwy drefniadau cymunedol sy'n gydlynol yn fewnol. Mae hyn yn golygu y dylai cymunedau gael cysylltiadau ffyrdd mewnol rhesymol ac adlewyrchu patrymau anheddu a chyfathrebu. Y nod yw sicrhau y gall pob etholwr gymryd rhan ym materion a gweithgareddau'r gymuned heb orfod teithio trwy gymuned gyfagos. Wrth gynnal adolygiad o ffiniau cymunedau, bydd y Cyngor yn ystyried maint y Cyngor o'i gymharu â maint cyffredinol y wardiau/cymunedau yn ei ardal. Gweler ffigur 1.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu materion penodol y mae'n rhaid eu hystyried wrth argymell newidiadau i drefniadau etholiadol cymuned.

1. Rhaid i'r adolygiad benderfynu a ddylid rhannu'r gymuned yn wardiau ar gyfer etholiadau cyngor cymuned. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i'r Comisiwn asesu a yw nifer neu ddosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn gwneud un etholiad o gynghorwyr cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus. Yn ogystal, rhaid iddo ystyried a ddylai unrhyw ardal benodol o'r gymuned gael cynrychiolaeth ar wahân ar y cyngor cymuned.

2. Os penderfynir yn erbyn rhannu'r cyngor cymuned yn wardiau, rhaid iddo benderfynu ar y nifer priodol o gynghorwyr ar gyfer y gymuned. Wrth wneud hynny, bydd gofyn i'r adolygiad ystyried "nifer a dosbarthiad" etholwyr llywodraeth leol o fewn y gymuned, yn ogystal ag unrhyw newidiadau disgwyliedig yn y ffigurau hyn dros y deng mlynedd nesaf.

3. Os yw'r adolygiad yn penderfynu rhannu cymuned yn wardiau, rhaid iddo sefydlu ffiniau'r wardiau a phennu nifer y cynghorwyr cymuned ar gyfer pob ward. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rhaid ystyried pwysigrwydd gosod ffiniau hawdd eu hadnabod, y posibilrwydd y bydd ffiniau wardiau penodol yn tarfu ar gysylltiadau lleol, ac unrhyw newidiadau disgwyliedig yn nifer neu ddosbarthiad etholwyr llywodraeth leol o fewn y gymuned dros y deng mlynedd nesaf.

4. Wrth ystyried y materion hyn, rhaid ystyried hefyd unrhyw anghysondeb rhwng nifer yr etholwyr cofrestredig a'r boblogaeth yn y gymuned sy'n gymwys i bleidleisio.

Gan ystyried y ffactorau perthnasol a amlinellir yn Neddf 2013, bydd unrhyw gynigion yn gwerthuso nifer presennol etholwyr llywodraeth leol yn yr ardal dan sylw, amcangyfrifon poblogaeth swyddogol ar gyfer yr ardal, a rhagamcanion yr etholwyr.

**5.0 Pwy fydd yn cynnal yr Adolygiad?**

O dan Adrannau 25 a 31 o'r Ddeddf, bydd y prif gyngor yn cynnal yr adolygiad, yn unol â'r canllawiau a ddiffinnir yn y Ddeddf. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd Cyngor Sir y Fflint yn cyflwyno ei adroddiad terfynol i’r Comisiwn, ymgynghoreion gorfodol, yr Arolwg Ordnans a Gweinidogion Cymru.

**6.0 Y Broses Adolygu**

Mae'r broses statudol y mae'n rhaid i brif gyngor lynu wrthi wrth gynnal adolygiad cymunedol, i raddau helaeth, yr un fath ar gyfer adolygiad ffiniau adran 25 ac adolygiad etholiadol adran 31. Dim ond o ran canlyniad yr adolygiad, a gweithrediad y canlyniad, y mae'r rheolau cyfreithiol perthnasol ar gyfer y ddau fath o adolygiad yn wahanol. Mae adran 35 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor sy'n cynnal adolygiad cymunedol gymryd pedwar cam hanfodol:

- Cyhoeddusrwydd cychwynnol
- Ymchwiliadau cychwynnol ac ymgynghoriad
- Cynigion drafft (ac ymgynghori ar y cynigion hynny)
- Argymhellion terfynol

Cam 1
Casglu data a gwybodaeth ynghylch ystadegau etholwyr, rhagolygon etholwyr rhagamcanol, gwybodaeth/mapiau ffiniau wardiau.

Cam 2
Bydd y Cyngor yn gofyn i bob parti sydd â diddordeb ystyried ffiniau presennol y cymunedau a chyflwyno eu barn ar unrhyw newidiadau a allai fod yn briodol neu'n angenrheidiol er mwyn creu cymunedau sy'n darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Cam 3
Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl gyflwyniadau a dderbynnir yn ystod y cam cyntaf ac yn cynhyrchu adroddiad cynigion drafft sy'n cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer newid ffiniau presennol y cymunedau.

Cam 4
Yna bydd ymgynghori'n dechrau ar y cynigion drafft gyda'r holl fudd-ddeiliaid a restrir isod.

Cam 5
Bydd yr holl safbwyntiau a chynrychioliadau'n cael eu cynnwys mewn adroddiad Terfynol a gyflwynir i'r Cyngor Llawn.

Cam 6
Cyhoeddir yr holl benderfyniadau a chytundebau terfynol gan y Cyngor Llawn.

Cam 7
Gwneir Gorchymyn yr adolygiad Adran 31 6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Cyflwynir argymhellion yr adolygiad Adran 25 i'r Comisiwn.

**7.0 Cymryd Rhan yn yr Adolygiad**

Gellir cyflwyno sylwadau a safbwyntiau i Gyngor Sir y Fflint mewn dau gam o'r adolygiad: yn ystod y cam ymchwilio cychwynnol a phan fydd yn ymgynghori ar ei gynigion drafft. Rhoddir ystyriaeth i'r holl sylwadau a safbwyntiau a gyflwynir erbyn 11:59 pm ar y dyddiad cau penodedig. Er na fydd manylion personol cyfranogwyr cyhoeddus unigol yn cael eu datgelu, bydd cyflwyniadau gan gyrff cynrychioliadol a swyddogion etholedig yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau.

Anogir cynghorau tref a chymuned, cynrychiolwyr etholedig, partïon â diddordeb, a'r cyhoedd i gymryd rhan yn y broses adolygu drwy gyflwyno sylwadau ac awgrymiadau. Gwerthfawrogir cyflwyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth a ffeithiau perthnasol.

Gwahoddir cynigion gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr i gyflwyno eu barn, gan sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o farn leol. Anogir y rhai sy'n gwrthwynebu unrhyw gynigion hefyd i ddarparu awgrymiadau amgen, wedi'u cefnogi gan dystiolaeth.

Pwysleisir y bydd cynigion yn canolbwyntio'n unig ar drefniadau cymunedol ac na fyddant yn mynd i'r afael ag etholaethau Senedd Cymru na Senedd San Steffan, dalgylchoedd ysgolion, na gwasanaethau a ddarperir gan y prif gyngor. Yn ogystal, ni roddir unrhyw ystyriaeth i unrhyw oblygiadau gwleidyddol lleol o'i gynigion a'i argymhellion, megis yr effaith bosibl ar gynghorwyr unigol neu bleidiau gwleidyddol.

## 8.0 Enwau Cymunedau a Wardiau Cymunedol

Wrth greu unrhyw enwau newydd bydd y Cyngor yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnull Panel Safonau Enwau Lleoedd i roi argymhellion a chyngor arbenigol yn y maes hwn. Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Panel yn dilyn canllawiau safoni cenedlaethol ac mae hefyd yn rhoi ystyriaeth i ystyr, hanes a geirdarddiad yr enwau lleoedd, yn ogystal â'r defnydd ohonynt. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai gorfodol yn yr arolwg.

## 9.0 Amserlen

| Cam | Beth sy'n Digwydd | Terfynau Amser | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cychwyn | Cytuno ar y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod y Cyngor Llawn | | 2 Gorffennaf 2025 |
| Cam rhagarweiniol: Cyhoeddusrwydd cychwynnol ac ymgynghoriad cyntaf | Cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl a chychwyn ar y cyhoeddusrwydd cychwynnol | 12 wythnos | 7 Gorffennaf – 30 Medi 2025 |
| **Ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben** | | | **30 Medi 2025** |
| Ystyried sylwadau a pharatoi cynigion drafft | Ystyried y sylwadau a ddaeth i law – Paratoi argymhellion drafft | 8 wythnos | Medi / Hydref / Tachwedd 2025 |
| Cymeradwyo'r cynigion drafft | Cynigion Drafft i gael eu hystyried gan y Cyngor a'u cymeradwyo ar gyfer ymgynghori ymhellach | | 20 Tachwedd 2025 |
| Ail ymgynghoriad | Cyhoeddi'r adroddiad yn unol â gofynion y Ddeddf. Gwahodd sylwadau gan ymgyngoreion gorfodol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill | 7 wythnos | Rhagfyr 2025 / Ionawr 2026 |
| **Ail ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben** | | | **16 Ionawr 2026** |
| Cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn | Ystyried sylwadau a'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. Y Cyngor yn penderfynu ar y cynigion terfynol | | 2 Mawrth 2026 |
| Cyhoeddi'r cynigion terfynol | Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol<br>(1) Gwneud Gorchymyn am yr adolygiad Adran 31 (6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol)<br>(2) Cyflwyno argymhellion Adolygiad Adran 25 i'r Comisiwn | | Ebrill a Mai 2026 |
| **Gorchmynion yn dod i rym** | **Etholiadau Llywodraeth Leol Nesaf** | | **Mai 2027** |

## 10.0 Gwybodaeth Ategol

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r adolygiad, gan gynnwys ffigurau etholwyr, map o'r ffiniau cymunedol presennol a chanllawiau ar gael ar wefan y Cyngor.